**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Steve Reed OBE AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

10 Ebrill 2025

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

**Attachés bwyd-amaeth a diod y DU**

Fel rhan o'i gylch gwaith, mae gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ddiddordeb mawr mewn gwaith sy'n mynd rhagddo ac yn effeithio ar sectorau amaethyddol a bwyd Cymru. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall y gwaith a wneir gan attachés bwyd-amaeth a diod Llywodraeth y DU sy'n gweithio yn Llysgenadaethau'r DU, a'r modd y maent yn cefnogi sector bwyd-amaeth Cymru.

Rydym ar ddeall mai rôl yr attachés – yn rhannol – yw nodi marchnadoedd rhyngwladol sy'n dod i'r amlwg, a chael mynediad at y galw ledled y byd am nwyddau gan ffermwyr a chynhyrchwyr y DU. A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith mewn perthynas â Chymru, gan gynnwys gwybodaeth am y modd y mae amaethyddiaeth a chynnyrch Cymru yn cael eu hyrwyddo, os gellir sôn am unrhyw gamau neu fentrau penodol? At hynny, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed am y modd y mae'r attachés yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru mewn gwledydd lle maent wedi'u cydleoli.

Rwy'n gwerthfawrogi eich sylw at y mater hwn, ac yn edrych ymlaen at eich ymateb.

Cofion cynnes,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg